## ATODLEN 1

### Bandiau a Ffioedd Ceisiadau

**1.** Mae'r bandiau a'r ffioedd fel a ganlyn—

| *Band y cais a disgrifiad ohono* | *Y ffi ar gyfer penderfynu ar gais* |
|---|---|
| **Band 1** | |
| Unrhyw gais sy'n ymwneud ag:<br>(a) atgyweirio neu ailosod bolltau, fflapiau, falfiau, byrddau ar lanfa neu ysgraff;<br>(b) symud ymaith dyfiant morol a gwano oddi ar unrhyw adeilad neu strwythur neu unrhyw ran ohono;<br>(c) gosod ysgolion wrth unrhyw adeilad neu strwythur;<br>(d) dyddodi pyst a'u symud ymaith wedi hynny at ddibenion marcio sianeli, ardaloedd dwr bâs, arllwysfeydd a grwynau;<br>(e) dyddodi bwiau marcio a'u symud ymaith wedi hynny;<br>(f) defnyddio cerbyd neu lestr i symud ymaith fân ddarnau arwahanol o falurion nad ydynt ynghlwm wrth wely'r môr (gan gynnwys polion, trawstiau, distiau a mân wrthrychau tebyg) sy'n gysylltiedig ag adeiladu, dymchwel, difrod neu adfeiliad adeilad neu strwythur;<br>(g) cael gwared ar ysbwriel gan ddefnyddio cerbyd neu lestr; neu<br>(h) unrhyw mân weithgaredd tebyg. | £600 |
| **Band 2** | |
| Unrhyw gais nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1, neu nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1 yn unig, ac sy'n ymwneud â gweithgaredd penodedig. | £1,920 |
| **Band 3** | |
| Unrhyw gais nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1 neu Fand 2, neu nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1 neu Fand 2 yn unig. | Cyfrifir y ffi ar gyfradd o £120 yr awr. |